

Alun Davies AC  
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes  
Llywodraeth Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

8 Mawrth 2017

Annwyl Weinidog

Amgaeaf neges e-bost at y Pwyllgor oddi wrth Mr Aled Roberts.

Mae Mr Roberts yn cynnig y dylai deddf newydd gael ei chyflwyno a fyddai'n galluogi bod pob cwrs addysg yng Nghymru ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Rwyf wedi esbonio wrth Mr Roberts fod y syniad hwn yn un nad ydym yn gallu ei gynnwys fel rhan o'r ymchwiliad yr ydym wedi'i gynnal ar yr iaith, oherwydd rydym bron a gorffen y gwaith hwnnw.

Serch hynny, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch er mwyn cael eich sylwadau ar y mater. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech ystyried syniad Mr Roberts ac ymateb i'm llythyr gyda'ch sylwadau.

Yn gywir



**Bethan Jenkins AC**

**Cadeirydd**

